| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **IONAWR 15 2014** |
| **TEITL:** | **SAFONAU IAITH: DIWEDDARIAD** |
| **AWDUR:** | **SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |

## 1. Cefndir

1.1. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi datgan y bydd yn hysbysu Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol Cymru o Ymchwiliad Safonau ar Ionawr 6, 2014. Yn y pen draw, bwriad y Safonau Iaith yw safoni darpariaeth parthed yr iaith Gymraeg ar draws cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Yn wahanol i Gynlluniau Iaith, bydd y Safonau'n cael eu gosod ar sefydliad, yn hytrach na'u cytuno.

1.2. Oherwydd amserlen y Pwyllgor Iaith, bu rhaid cynhyrchu'r Adroddiad cyn derbyn copi o ohebiaeth y Comisiynydd, ond atodir copi i sylw'r Aelodau.

1.3. Atodir yn ogystal Safonau Arfaethedig mewn Perthynas a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yr un pryd a daeth gohebiaeth y Comisiynydd i law. Selir yr Ymchwiliad Safonau ar y draft yma.

## 2. Camau Nesaf ac Amserlen

2.1. O Ionawr 27, 2014, bydd disgwyl i holl Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol Cymru ymgymryd ag Ymchwiliad Safonau. Pwrpas yr Ymchwiliad fydd dyfarnu a dylai sefydliad gydymffurfio a Safonau, ac os felly, pa rai fyddo'n benodol gymwys iddynt. Bydd yr Ymchwiliad yn cymryd ffurf Holiadur, i amlinellu'r sefyllfa parthed ein gweithredu ym maes yr iaith Gymraeg a bydd y broses yn cymryd 12 wythnos.

2.2. Fel yr amlinellir uchod, targedir Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol yn lle cyntaf, gyda sefydliadau eraill yn mynd drwy'r broses maes o law. Mae'r Comisiynydd yn rhagweld y bydd pob corff perthnasol yn gweithredu'r Safonau ymhen dwy flynedd a hanner.

2.3. Yn dilyn yr Ymchwiliad i waith yr Awdurdodau Lleol a'r Parciau, bydd y Comisiynydd yn rhannu a thrafod Adroddiad Ymchwiliad gyda Gweinidogion Cymru, cyn i Reoliadau Drafft gael eu gosod at ddiwedd 2014. O dderbyn y Safonau, bydd gan bob corff 6 mis i gydymffurfio.

## 3. Gofynnir I’r Pwyllgor

3.1 Nodi cynnwys yr Adroddiad a’r Atodiadau.